

## WILLIAMS, WILLIAM (1717 - 1791), clerigwr Methodistiaidd, awdur, ac emynydd

**Enw:** William Williams

**Dyddiad geni:** 1717

**Dyddiad marw:** 1791

**Priod:** Mary Williams (née Francis)

**Plentyn:** William Williams

**Plentyn:** John Williams

**Rhiant:** Dorothy Williams (née Lewis)

**Rhiant:** John Williams

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** clerigwr Methodistiaidd, awdur, ac emynydd

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn 1717 yn y Cefncoed, Llanfair-ar-y-bryn, Sir Gaerfyrddin, mab John a Dorothy Williams. Yr oedd ei dad yn henuriad llywodraethol yn eglwys Annibynnol Cefnarthen. Addysgwyd ef, gyda'r bwriad o fod yn feddyg, yn athrofa Llwynllwyd; ac yn ystod ei dymor yno cafodd dröedigaeth o dan weinidogaeth [Howel Harris](#) ym mynwent Talgarth. Ymunodd â'r Eglwys Sefydledig ac ordeinwyd ef yn ddiakon yn 1740; bu'n gurad i [Theophilus Evans](#) yn Llanwrtyd, Llanfihangel, a Llanddewi Abergwesyn hyd 1743. Bu mewn helbul yn llys yr esgob ac o ganlyniad gwrthododd esgob Tyddewi ei ordeinio'n offeiriad yn 1743. Ymfwriddoedd gydag eraill, megis [Daniel Rowland](#) a [Peter Williams](#), i'r mudiad Methodistiaidd, a daeth yn un o brif arweinwyr y mudiad hwnnw yng Nghymru. Priododd c. 1748, â Mary Francis o Lansawel ac aeth i fyw i hen gartref ei fam ym Mhantycelyn. Bu WILLIAM, ei fab hynaf, yn gurad yng Nghernyw am flynyddoedd; ei ail fab oedd [John Williams](#). Bu'n arolygu seiadau, teithio a phregethu dros Gymru bwygilydd ar hyd ei oes. Bu farw 11 Ionawr 1791, a chladdwyd yn Llanfair-ar-y-bryn.

'Williams Pantycelyn' oedd prif emynydd y deffroad Methodistiaidd yng Nghymru, a gellir priodoli llawer o lwyddiant Methodistiaeth Gymreig i'r bri a fu ar ganu ei emynau. Cyhoeddwyd y rheini yn llyfrau a llyfyrnau yn y drefn a ganlyn: *Aleluia* (yn chwech o rannau rhwng 1744 a 1747, ac yn gyfrol yn [1749](#) [↗](#)); *Hosanna i Fab Dafydd* (yn ddwy ran, [1751](#) [↗](#) a 1754, a chasgliad Saesneg, *Hosannah to the Son of David*, 1759); *Rhai Hymnau a Chaniadau Duwiol*, 1757; *Caniadau ... y Môr o Wydr*, 1762 (ac argraffiadau eraill yn 1763, 1764, a [1773](#) [↗](#)); *Ffarwel Weledig* (yn dair o rannau, 1763, 1766, a 1769, ac yn gyfrol dan y teitl *Haleluia Drachefn*, c. 1790); *Gloria yn Excelsis* (yn ddwy ran, [1771](#) [↗](#) a [1772](#) [↗](#)), ynghyd â chasgliad Saesneg o'r un enw, 1772); *Ychydig Hymnau*, 1774; a *Rhai Hymnau Newyddion* (tri o gasgliadau bychain yn [1781](#) [↗](#), [1782](#) [↗](#), a [1787](#) [↗](#)). Bu'r emynau hyn yn bwysig nid yn unig i fywyd crefyddol y genedl ond yn gyfraniad gwerthfawr i'w diwylliant llenyddol.

Canodd ddwy gân fawr hefyd, sef Golwg ar Deyrnas Crist, [1756](#) [↗](#) (ail arg. 1764), a *Bywyd a Marwolaeth Theomemphus* [↗](#), 1764 (ail arg. 1781). Y mae'r gyntaf yn ymgais ar gân i fwrw golwg dros y bwriadau dwyfol yn y greadigaeth, a'r ail yn astudiaeth o ymdaith enaid yn y byd yn ei holl brofiadau. Canodd tua 28 o farwnadau, rai ohonynt yn bur gyffredin, ac eraill

- megis y rhai i Lewis Lewis, Grace Price, [Howel Harris](#), a [Daniel Rowland](#) - yn codi i dir uchel ar adegau. Cyhoeddodd nifer o lyfrau mewn rhyddiaith, sef [Lythyr Martha Philopur](#), 1762, ac [Atteb Philo-Evangelius](#), 1763; [Crocodil Afon yr Aipht](#), 1767; [Tri Wyr o Sodom](#) - math ar nofel, 1768; *Liber Miscellaneorum*, 1773; [Ductor Nuptiarum: Neu, Gyfarwyddwr Priodas](#), 1777; [Templum Experientiae Apertum](#), 1777; a *Pantheologia, Neu Hanes Holl Grefyddau'r Byd* - gwaith llafurus a gyhoeddwyd yn rhannau rhwng 1762 a 1778. Nid oes ofod i sôn am ei drosiadau o'r Saesneg a mân lyfrau a llyfrynau eraill ar gân ac mewn rhyddiaith. Ceir ei enw ar agos i 90 o lyfrau a llyfrynau rhwng 1744 a 1791, ac fe ddengys hynny faint ei lafur llenyddol. Ar gyfrif ei emynau y cofir amdano heddiw, ond ymddiddorir o'r newydd yn ei farddoniaeth yn gyffredinol, yn ogystal ag yn ei ryddiaith. Ef oedd bardd rhamantus cyntaf Cymru, ac fel y cyfryw bu ei ddylanwad yn drwm ar ei gyfoeswyr ac ar y rhai a ddaeth ar ei ôl.

## Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

## Ffynonellau

*Y Drysorfa*, Ionawr 1813

Edward Morgan, *Ministerial Record or, Brief account of the great progress of religion under the ministry of Rev. W. Williams, of Pantycelyn, Carmarthenshire* (Llundain 1847)

J. R. Kilsby Jones, *Holl weithiau prydyddawl a rhyddieithol y diweddar Barch. William Williams, Pant-y-Celyn* (Llundain 1867)

N. Cynhafal Jones, *Gweithiau Williams Pant-y-Celyn* (Treffynnon 1887), i  
*Cylchgrawn Cymdeithas Hanes y Methodistiaid Calфинаidd*, iii, 35; xxxiii, 2

J. H. Davies, *Rhestr o lyfrau gan y Parch William Williams Pantycelyn a argraffwyd rhwng 1744 a 1800* (Caerfyrddin 1918)

Saunders Lewis, *Williams Pantycelyn* (Llundain 1927)

ceir manylion am bob ffynhonnell yn y llawysgrifau, etc., yn G. M. Roberts, *Y Pêr Ganiedydd [Pantycelyn]. Cyfrol 1 Trem ar ei fywyd; Cyfrol 2: Arweiniad i'w waith* (Aberystwyth 1949, 1958)

gweler hefyd yr erthygl ar [Williams, Roger \(1667-1730\)](#)

## Darllen Pellach

[Llawysgrifau William Williams Pantycelyn](#) ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru

[Gweithiau Print Williams Williams, Pantycelyn](#) ar wefan Llyfrgell Genedlaethol Cymru

J. Morgan Jones a W. Morgan, [Y Tadau Methodistaidd \(1895-1897\)](#), i, 141-178

Coflein: [William Williams Pantycelyn tomb and memorial, Llanfair ar y Bryn](#)

Coflein: [Williams Pantycelyn Memorial Chapel, English Presbyterian and Calvinistic Methodist, Llandovery](#)

Stephen James Turner, Theological themes in the English works of Williams Pantycelyn, M.Th. Thesis, Univeristy of Wales Aberystwyth, 1982

Erthygl Wicipedia: [William Williams Pantycelyn](#)

## Sain a Ffilm

Teledu Annibynwyr: [Wiliam Williams Pantycelyn](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [70325554](#)

Wikidata: [Q3397600](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

